

## **HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD**

### **GWEINIDOGION CYMRU**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAER I  
FANGOR (YR A55) (GWELLIANT AILALINIO  
CYFFYRDD 16 AC 16A A'R FFYRDD YMUNO  
AC YMADAEL) 202-**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL  
HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD YN UNOL  
AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980  
(FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER  
SAFLEOEDD EWROPEAIDD  
HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I HYSBYSU  
ASESIAD PRIODOL YN UNOL Â RHEOLIAD 63  
O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD  
A RHYWOGAETHAU 2017 (FEL Y'I  
DIWYGIWYD)**

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu eu bod wedi penderfynu bod y prosiect arfaethedig i ddisodli'r gylchfan bresennol wrth Gyffordd 16 o gefnffordd yr A55 ym Mhenmaenmawr, er mwyn darparu cyffyrdd aml lefel wrth Gyffyrdd 16 ac 16A a fydd yn cynnwys gwaith ar y llinell ac oddi ar y llinell a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl, yn brosiect perthnasol o fewn ystyr adran 105A(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) ac yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb y CE 2014/52/EU.

Maent hefyd yn hysbysu bod rhaid cynnal Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd o dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC.

Dylid anfon unrhyw sylwadau am yr hysbysiad hwn i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod. Dylid gwneud unrhyw sylwadau cyn gynted â phosibl a dylent ddod i law Llywodraeth Cymru erbyn 7 Mai 2021.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect ac am yr hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## **NOTICE OF DETERMINATION**

### **THE WELSH MINISTERS**

**THE CHESTER TO BANGOR TRUNK ROAD  
(A55) (JUNCTIONS 16 AND 16A  
IMPROVEMENT REALIGNMENT AND SLIP  
ROADS) ORDER 202-**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT  
NOTICE OF DETERMINATION IN  
ACCORDANCE WITH SECTION 105 B OF THE  
HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS FOR  
EUROPEAN SITES  
NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN  
APPROPRIATE ASSESSMENT IN  
ACCORDANCE WITH REGULATION 63 OF  
THE CONSERVATION OF HABITATS AND  
SPECIES REGULATIONS 2017 (AS AMENDED)**

The Welsh Ministers give notice that they have determined that the proposed project to replace the existing A55 Trunk Road Junction 16 roundabout at Penmaenmawr, to provide grade-separated junctions at Junctions 16 and 16A to include online and off line works and side road improvements, is a relevant project within the meaning of Section 105A(1) of the Highways Act 1980 (as amended) and is to be made subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and EC Directive 2014/52/EU.

They also give notice that an Assessment of Implications for European Sites under Regulation 63 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 and Article 6(3) of the Habitats Directive 92/43/EC is required.

Any comments about this notice should be sent to the Welsh Government at the address given below. Any comments should be made as soon as possible and received by the Welsh Government by 7 May 2021.

Further information on the project and about this notice may be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



**N HUNTER**  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru  
Ar ran Gweinidogion Cymru



**N HUNTER**  
Business Team Leader  
Welsh Government  
On behalf of the Welsh Ministers